YSGOL ABERCONWY

Gorffennaf 2019

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Croeso i Gylchlythyr yr Haf! Mae gennym ddigonedd o straeon am lwyddiant yn y rhifyn hwn, gan gynnwys hanes cyflawniadau ein myfyrwyr y tymor hwn ac yn wir, eleni. Mwynhewch ei ddarllen a gobeithio y cewch chi wyliau Haf haeddiannol. Welwn ni chi ym mis Medi!

Tro Cyntaf i Aberconwy

Yn ddiweddar, fe wnaeth myfyriwr Blwyddyn 12, April Ehlke-West, sefyll brawf hyfedredd Tsieinëeg Lefel 1 HSK. Enillodd April, sy'n un o fyfyrwyr mwyaf abl yr ysgol mewn Tsieinëeg Mandarin, farciau llawn – 100/100, sy'n gyflawniad gwych!

Prawf safonedig yw Hanyu Shuiping Kaoshi Tsieina, a elwir yn "HSK" neu Brawf Hyfedredd Tsieinëeg, a ddatblygwyd gan Ganolfan Brawf HSK ym Mhrifysgol Iaith a Diwylliant Beijing (BLCU). Ei bwrpas yw asesu hyfedredd iaith siaradwyr anfrodorol mewn Tsieinëeg ac mae'n darparu safon fyd-eang y gellir ei defnyddio ar gyfer derbyniadau i brifysgol a cheisiadau am swyddi.

Teithiodd April, y myfyriwr cyntaf o Ysgol Aberconwy i sefyll prawf HSK, i Brifysgol Manceinion ym mis Mawrth i sefyll ei harholiad. Mae cyflawniad April yn fwy arbennig fyth gan ei bod hi'n dysgu Mandarin yn ei hamser rhydd, yn ogystal ag astudio llawn amser ar gyfer ei harholiadau Safon Uwch. Rydym yn falch iawn o'i llwyddiant. Zhùhè April!

Ein cynhyrchiad ysgol nesaf… yw Billy Elliot

Ysgol Aberconwy yw'r ysgol gyntaf yng Ngogledd Cymru i dderbyn yr hawl i berfformio'r sioe gerdd wych, Billy Elliot. Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi ei dewis fel ein cynhyrchiad ysgol nesaf.

Cynhaliwyd clyweliadau yn ddiweddar a dewiswyd y cast ar gyfer y sioe gerdd anhygoel hon. Rydym yn rhagweld cynhyrchiad cyffrous tymor nesaf!

YSGOL ABERCONWY

Gorffennaf 2019

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Troedio'r llwyfan yn Venue Cymru

Rydym wrth ein bodd ein bod wedi derbyn cais i rannu ein project Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nigwyddiad Dewch i Ddathlu! Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn Venue Cymru y mis hwn. Dyma gyfle gwych i arddangos ein gwaith!

Gwobrau Efydd Dug Caeredin

Llongyfarchiadau i Archie Benjamin, Marnie Cockrill, Rose Krol, Ewan Marshall, Olivia Hender, Natalie Lewis, Ben Davies a Caitlin Owen yn Bl11 ac Erin Hughes yn Bl10. Maent i gyd wedi gweithio'n galed i gwblhau eu Gwobr Efydd Dug Caeredin.

Total Warrior

Cwblhaodd Adele Hughes ei digwyddiad 6K Total Warrior cyntaf ym mis Mehefin, yn Leeds. Da iawn ti!

Taith Gerdded Noddedig

mind Aberconwy
for better mental health
o blaid gwell iechyd meddwl

Fe wnaeth yr ysgol gyfan fwynhau Taith Gerdded Noddedig eleni a gynhaliwyd ar Orffennaf 17eg mewn partneriaeth â Mind Aberconwy.

YSGOL ABERCONWY

Gorffennaf 2019

Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf | Newyddion Diweddaraf

Dewch I Ddawnsio!



Mae Llion Hughes ac Osian Humphreys, 9HC, Nathaniel Malpas 9DC a Morgan Hughes 7LLC i gyd yn mynychu theatr dawns a cherddoriaeth SB Entertainment.
Maent i gyd yn aelodau o'r tîm o ddawnswyr cystadleuaeth uwch a gyrhaeddodd rownd derfynol Juste Dance ym Mhafiliwn y Rhyl ym mis Mehefin a rownd derfynol Her Ddawnsio Dreammakers UK yng Ngerddi'r Gaeaf yn Blackpool, sy'n cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2019. Da iawn fechgyn! Rydym yn falch iawn ohonoch.

Dofi'r Ardd Wyllt...

Fel rhan o'u Bagloriaeth Cymru, mae myfyrwyr Blwyddyn 10 wedi bod yn gweithio'n galed i ddofi ein Gardd Wyllt.

Dan lygad barcud Mr Misiak a Ms Williamson, maent wedi bod yn plannu gwrych newydd o goed masarn, cyll, rhosynnau, drain gwynion a choed ceirios i ddiogelu'r gwely llysiau. Mae'r cnydau eleni yn cynnwys tatws, ffa, pys, cennin a brocoli ynghyd â thomatos, corn a chiwcymerau yn yr 'ardd gyfrinachol'.

Cyfle gwych i ddysgu sgiliau ymarferol tragwyddol.

Ysgol Aberconwy yn ennill cystadleuaeth ffilmiau

IRIS PRIZE

Mae myfyrwyr cyfryngau a ffilm Blwyddyn 12 a 13 wedi ennill gwobr gyffrous gyda Gwobr Iris, cystadleuaeth genedlaethol sy'n cynnig cyfle i wneud ffilm fer.

Trwy Iris Education, bydd myfyrwyr yn awr yn gweithio gyda gwneuthurwyr ffilmiau proffesiynol i greu ffilm fer gyda thema LGBT+. Mae myfyrwyr Chweched Dosbarth hefyd wedi cael eu gwahodd i fynychu Gŵyl Gwobr Iris, gŵyl ffilmiau fyd-eang sy'n dathlu ac yn cefnogi LGBTQ+, yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Bydd eu ffilm yn cael ei dangos ym mis Ionawr 2020 yn nhaith 'Iris on the Move' a hefyd yn cystadlu mewn cystadlaethau ar ôl cael ei chynhyrchu.

Campau Chwaraeon

PÊL-DROED

Bu pum tîm bechgyn a dau dîm merched yn cystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-droed Ysgolion Cymru.

Cyhaeddodd y tîm merched D13 y rownd gogynderfynol
Cyrhaeddodd y tîm bechgyn D13 y 3edd rownd
Cyrhaeddodd y tîm bechgyn D18 yr 16 olaf.

Cynrychiolodd Sophie Rawling dîm Pêl-droed Merched Cymru yn ystod y tymor hwn ac mae Erin Doran wedi hyfforddi gyda Thîm Datblygu Merched Cymru.

BOCSIO

Enillodd Luke Corcoran Fedal Aur ym Mhencampwriaethau Bocsio Ewrop ym mis Tachwedd 2018.

Bu hefyd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Bocsio y Tair Gwlad ym mis Mai 2019, gan ennill Medal Arian.

PÊL-RWYD

Roedd Timau Pêl-rwyd Merched D14 a D16 yn Bencampwyr Sirol.

Daeth eu timau yn 4ydd a 3ydd yn y drefn honno yn nhwrnamaint Eryri Ann Smart.

Roedd Mia Rawling, Rebecca Freestone, Elin Watson a Hannah Partington yn rhan o garfan Gogledd Cymru.

Rydym wedi mwynhau perfformiadau myfyrwyr o'r radd flaenaf mewn amrywiaeth eang o chwaraeon yn ystod y flwyddyn ysgol hon. Da iawn chi i bawb a fu'n cymryd rhan!

TRAWS GWLAD

Enillodd Caitlin Owen, Elin Watson, Ceri Watson, Sylwester Ruszkowski, Bradley Farrar, Jacob Edghill, Scarlett Chance ac Emily Roberts le ar Dîm Traws Gwlad Ysgolion Conwy, gan gynrychioli Conwy yn Nolgellau.

Enillodd Ceri Watson le ar Dîm Traws Gwlad Ysgolion Eryri, gan gynrychioli'r tîm yn Aberhonddu.

Enillodd Cai Rowlands Bencampwriaethau Gogledd Cymru ar gyfer Traws Gwlad. Yn ogystal daeth yn 4ydd yn nigwyddiad Rhyng-ranbarthol Cymru yn Abertawe, lle bu'n cynrychioli Gogledd Cymru.

RYGBI

Roedd Hayden Burrows yn aelod o Garfan Aur Gorllewin RGC ac roedd Ethan Arkell yn aelod o Garfan Goch Gorllewin RGC.

GOLFF

Mae Joe Williams yn aelod o Dîm Golff Bechgyn Ysgol Eryri & Chymru ac yn rhan o Dîm Clybiau Gogledd Cymru.

YSGOL ABERCONWY

July 2019

News Update | News Update | News Update | News Update |

Campau Chwaraeon - parhad.....

CODI PWYSAU

Bu nifer o ddisgyblion ysgol yn cystadlu ac yn ennill medalau mewn amrywiaeth o bencampwriaethau codi pwysau yn ystod y flwyddyn hon:

Jaydon Parry – Medalydd Arian Codi Pwysau Bechgyn D15 Cymru
Tom Roberts – Medalydd Arian Codi Pwysau Bechgyn D15 Cymru
Sophie Maloney – Medalydd Arian Codi Pwysau Merched D15 Cymru
Jack Parry – Medalydd Arian Codi Pwysau Bechgyn D15 Cymru.

Mae Sam Roberts yn enillydd nifer o fedalau Aur ac Arian Codi Pwysau Cymru; Medalydd Arian Prydain, Medalydd Arian Gornest Iau Ewrop a bu'n cynrychioli Cymru yn y Gemau Celtaidd.

Mae Ben Foggo yn enillydd nifer o fedalau Aur Codi Pwysau Iau a Hŷn Cymru, yn Fedalydd Aur Codi Pwysau Iau a Hŷn Prydain ac wedi ennill Medal Aur Gornest Iau Ewrop ddwywaith. Mae hefyd wedi cynrychioli Cymru yn y Gemau Celtaidd.

NOFIO

Sylwester Ruszkowski – 4ydd lle mewn ras Dull rhydd 50m & 100m ym Mhencampwriaethau Nofio Cymru. Yn ogystal, enillodd le yn Rownd Derfynol Pencampwriaethau Nofio Cymru mewn pedair cystadleuaeth arall.

Enillodd Ceri Watson le ym Mhencampwriaethau Nofio Cymru mewn pedair cystadleuaeth.

Enillodd Caitlin Owen le ym Mhencampwriaethau Nofio Cymru.

BOWLS

Enillodd Ryan Williams Deilyngdod Cymru yn bowls.

ATHLETAU

Enillodd Caitlin Owen, Sophie Maloney, Jacob Edghill, Tom Roberts, Kiesha Carnwell, Owen Mcilwraith, Amelie Partington, Luke Corcoran a Christian West oll le ar Dîm Athletau Ysgol Conwy gan gystadlu ym Mhencampwriaethau Eryri yn Nhreborth.

Dyddiadau Tymor Allweddol ar gyfer y Dyddiadur...

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau ysgol a dyddiau hyfforddi staff Ysgol Aberconwy, ewch i'n calendr ar wefan yr ysgol a'r tudalen we sy'n cynnwys dyddiadau'r tymor, a fydd yn rhoi'r holl wybodaeth i chi ar gyfer y flwyddyn academaidd.

Click Here...

Dyddiadau allweddol i ddod:

- **Ysgol yn agor:** D. Mercher, Medi 4ydd
- **Diwrnod olaf cyn hanner tymor:** Dydd Gwener, Hydref 25ain
- **Ysgol yn agor:** Dydd Llun, Tachwedd 4ydd
- **Diwrnod olaf y tymor:** Dydd Gwener, Rhagfyr 20fed